# RHAGLEN DATBLYGU'R GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU
# SOCIAL CARE WALES WORKFORCE DEVELOPMENT PROGRAMME

**Rhifyn 36 - Issue 36 Rhagfyr - December 2024**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan Dîm Dysgu a Datblygu Cyngor Sir Ceredigion.**

**Merry Christmas and Happy New Year from Ceredigion County Council's Learning and Development Team.**

## Clywch yn uniongyrchol gan GCC am y cymorth y gallant ei gynnig i gyflogwyr

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal dau ddigwyddiad i arddangos y gwasanaethau, y cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i helpu cyflogwyr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r digwyddiadau hyn ar gyfer cyflogwyr gweithwyr cofrestredig gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys Unigolion Cyfrifol a rheolwyr cofrestredig.

### Cynnig i Gyflogwr

Dyddiad: 30 Ionawr 2025
Amser: 10:00–11:00
Lleoliad: Ar-lein

Ymunwch â'r digwyddiad rhithwir hwn i ddarganfod mwy am y 'gynnig i gyflogwyr' GCC, gan gynnwys cymorth llesiant, ymgyrch Gofalwn Cymru, ac amrywiaeth o adnoddau ychwanegol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cyflogwyr.

Archebwch eich lle yma

### Sioe Deithiol Cymorth i Gyflogwyr

Dyddiad: 18 Chwefror 2025
Amser: 09:30–15:00
Lleoliad: Canolfan Gynadleddau Medrus, Prifysgol Aberystwyth, Derbynfa Penbryn, Penglais, Aberystwyth, SY23 3BY

Dewch i glywed am y gwasanaethau, cymorth ac adnoddau sydd ar gael i chi gan gynnwys:

- Y Tîm gymorth i gyflogwyr
- 'Cynnig i gyflogwyr' GCC

Bydd sesiynau hefyd ar:

- Gwrth-hiliaeth mewn gofal cymdeithasol
- Arweinyddiaeth dosturiol
- Deall eich potensial digidol

Bydd diodydd a chinio ar gael.

Mae mynychu'r sesiwn yn cyfrif tuag at eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) os ydych wedi cofrestr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Archebwch eich lle yma

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

## Hear directly from SCW about the support they can offer employers

Social Care Wales is hosting two events to showcase the services, support, and resources available to help employers of the social care workforce in Wales. These events are for employers of registered adult social care workers, including Responsible Individuals and registered managers.

### The Employer Offer

Date: 30 January 2025
Time: 10:00–11:00
Location: Online

Join this virtual event to discover more about SCW's 'employer offer', including well-being support, the WeCare Wales campaign, and a range of additional resources designed to support employers.

Book your place here

### Employer Support Roadshow

Date: 18 February 2025
Time: 09:30–15:00
Location: Medrus Conference Suite, Aberystwyth University, Penglais Campus, Aberystwyth, SY23 3BY

Come along to hear about the services, support, and resources available to you, including:

- The employer support team
- SCW's 'employer offer'

There will also be sessions on:

- Anti-racism in social care
- Compassionate leadership
- Understanding your digital potential

Refreshments and lunch will be available.

Attending this event will count towards your continuous professional development (CPD) if you're registered with Social Care Wales.

Book your place here

## Hyfforddiant Budd-daliadau Lles



Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn falch o gyhoeddi ein bod wedi trefnu'r cyrsiau canlynol i'w cyflwyno ar-lein, wedi'u cynllunio i wella eich dealltwriaeth o'r system budd-daliadau lles a chostau tai o dan Gredyd Cynhwysol.

### Cyflwyniad i Fudd-daliadau Lles

Bydd y cwrs hwn yn cynnwys:

- Pam mae yna wahanol gategorïau o fudd-daliadau
- Strwythur y system fudd-daliadau, gan gynnwys cardiau allweddol ar gyfer dros 20 o fudd-daliadau
- Meini prawf yr hawl i gael y prif fudd-daliadau
- Hawliadau ac apeliadau dilys
- Uchafu budd-daliadau; budd-daliadau a phremiymau heb eu hawlio'n ddigonol
- Sut i atgyfeirio achosion a darparu gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio
- Cipolwg ar strwythur y system fudd-daliadau
- Yn gryno, y prif newidiadau i fudd-daliadau dros y flwyddyn ddiwethaf; cipolwg ar newidiadau arfaethedig i'r budd-daliadau; problemau budd-daliadau cyffredin ac amserol y bydd eich cleientiaid yn eu profi
- Trosolwg o Gredyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Personol

Dyddiadau: 3 a 4 Chwefror 2025, 10:00–13:00 (angen mynychu'r ddau ddiwrnod)

### Costau Tai a Chredyd Cynhwysol

Bydd y cwrs hwn yn cynnwys manylion am:

- Yr amserlen ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol
- Sut y caiff costau tai rhentwyr a chleientiaid sydd â morgais eu talu
- Sut y caiff costau tai perchnogion ar y cyd eu talu
- Cyfyngiadau ar gostau tai - taliadau gwasanaeth sy'n daladwy, person annibynnol, Y cap budd-daliadau, meini prawf maint, meini prawf cost uchel
- Cyfnodau asesu, a'r effaith ar daliadau misol o ganlyniad i newidiadau mewn amgylchiadau
- Trefniadau talu amgen gan gynnwys taliadau i landlordiaid
- Ôl - ddyddio
- Absenoldeb o'r cartref a chostau tai sy'n gorymylu, cyfnodau rhybudd
- Y cap budd-daliadau o dan Gredyd Cynhwysol
- Costau tai morgais o dan Gredyd Cynhwysol
- Newidiadau i Gredyd Cynhwysol dros y 3 blynedd diwethaf

Dyddiadau: 5 a 6 Mawrth 2025, 10:00–13:00 (angen mynychu'r ddau ddiwrnod)

I archebu lle ar gwrs, e-bostiwch dysgu@ceredigion.gov.uk

## Welfare Benefits Training

The Learning and Development team is pleased to announce that we have arranged the following courses to be delivered online, designed to enhance your understanding of the welfare benefits system and housing costs under Universal Credit.

### Introduction to Welfare Benefits

This course will include:

- Why there are different categories of benefits
- The structure of the benefits system, including key cards for over 20 benefits
- Qualifying conditions for main benefits
- Valid claims and appeals processes
- Maximizing benefits; underclaimed benefits and premiums
- How to signpost and refer cases
- An overview of the benefits system structure
- Briefly, the main changes to benefits over the last year; at a glance guide to proposed benefit changes; common and topical benefit problems your clients will experience
- An overview of Universal Credit and Personal Independence Payments

Dates: 3 and 4 February 2025, 10:00–13:00 (need to attend both days)

### Housing Costs and Universal Credit

This course will include details on:

- The timetable for the introduction of Universal Credit
- How renters and clients with mortgages will have housing costs met
- How shared owners will have housing costs met
- Restrictions on housing costs - service charges, non-dependants, the Benefit Cap, size criteria, and high cost criteria
- Assessment periods, and effect on monthly payments of changes of circumstances
- Alternative payment arrangements including payments to landlords
- Backdating
- Absence from home and overlapping housing costs, notice periods
- The Benefit Cap under Universal Credit
- Mortgage housing costs under Universal Credit
- Changes to Universal Credit over the last 3 years

Dates: 5 and 6 March 2025, 10:00–13:00 (need to attend both days)

To book a place on a course, please email dysgu@ceredigion.gov.uk

# RHAGLEN DATBLYGU'R GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU
# SOCIAL CARE WALES WORKFORCE DEVELOPMENT PROGRAMME

## Cynhadledd y Gymraeg

Mae cofrestru bellach ar agor ar gyfer y gynhadledd Gymraeg a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar y thema Iaith, Urddas a Gofal. Bydd y gynhadledd yn cael ei chynnal ar 5 Mawrth 2025 yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno.

Bydd y digwyddiad yn cynnig cyfle i rannu profiadau cadarnhaol o weithio yn y Gymraeg yn y sector gofal cymdeithasol a thu hwnt, tra hefyd yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Mae'r gynhadledd hon yn ddelfrydol i unrhyw un sy'n ymwneud â darparu neu gefnogi gwasanaethau Cymraeg, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith Gymraeg i ddarparu gofal a chymorth yn y Gymraeg.

Am fwy o fanylion ac i gofrestru, ewch i dudalen we digwyddiadau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bydd cofrestru'n cau ar 18 Chwefror 2025.

## Welsh Language Conference

Registration is now open for the Welsh language conference hosted by Social Care Wales on the theme of Language, Dignity and Care. The conference will take place on 5 March 2025 at the Welsh Government offices, Llandudno Junction.


The event will provide an opportunity to share positive experiences of working in Welsh within the social care sector and beyond, while also highlighting the support available for people providing Welsh language services.

This conference is ideal for anyone involved in delivering or supporting Welsh language services, as well as those looking to improve their Welsh language skills to provide care and support in Welsh.

For more details and to register, visit the Social Care Wales event web page.

Registration closes on 18 February 2025.

## Modiwlau eDdysgu



Mae'r modiwlau canlynol ar gael ar Bwll Dysgu Ceredigion:

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch ar gyfer Sefydliadau Allanol
- Atal a Rheoli Heintiau
- Cyflwyniad i feysydd Gofal a Gofal Personol
- Cyflwyniad i Hylendid Bwyd
- Trin a Thrafod Gwrthrychau
- Trin a Thrafod Pobl
- Ymwybyddiaeth Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Diogelu Unigolion sydd mewn Perygl o Ddioddef Troseddau Bregusrwydd
- Sut i Ddarparu Meddyginiaethau yn Ddiogel
- Diogelu Plant ac Oedolion Grŵp A
- Deall Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)
- Deall Awtistiaeth
- Awtistiaeth - Deall Cyfathrebu Effeithiol
- Deall Asesiad ac Awtistiaeth
- Deall Syndrom Tourette
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Os hoffech fynediad i'r modiwlau uchod, e-bostiwch dysgu@ceredigion.gov.uk

## eLearning Modules

The following modules are available on Ceredigion Learning Pool:

- Equality & Diversity
- Health & Safety for External Organisations
- Infection Prevention & Control
- Introduction to Care & Personal Care
- Introduction to Food Hygiene
- Manual Handling of Objects
- Manual Handling of People
- Mental Capacity Act 2005 Awareness
- Protecting Individuals at Risk of Vulnerability Crimes
- Safe Administration of Medicines
- Safeguarding Children & Adults Group A
- Understanding ADHD
- Understanding Autism
- Autism - Understanding Effective Communication
- Understanding Assessment and Autism
- Understanding Tourette Syndrome
- United Nations Convention on the Rights of the Child
- Violence Against Women, Domestic Abuse & Sexual Violence
- Welsh Language Awareness

If you would like access to the above modules, please email dysgu@ceredigion.gov.uk

# HYFFORDDIANT SYDD AR Y GWEILL

## Hyfforddiant Rhithwir

- **Trosedd Cyfaill**
  14/01/2025, 10:00–11:00
- **Gweithdy Canabis**
  16/01/2025, 13:30–16:30
- **Trosedd Casineb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
  20/01/2025, 10:00–11:00
- **Diogelu Oedolion Grŵp C**
  28/01/2025 a 04/02/2025, 09:30–16:30
- **LGBTQ+ - Sut mae Darparu'r Gwasanaethau a'r Cymorth Priodol**
  04/02/2025, 09:30–13:00
- **Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Gamddefnyddio Sylweddau**
  06/02/2025, 09:30–13:30
- **Diogelwch Personol / Gweithio ar eich Pen eich Hun**
  13/02/2025, 10:00–11:00
- **Trosedd Casineb**
  05/03/2025, 10:00–12:00
- **Codi Ymwybyddiaeth o Lymffoedema a Cellulitis**
  06/03/2025, 10:00–11:00

## Hyfforddiant Wyneb yn Wyneb

- **Dechrau'r Galon / Cymorth Cyntaf Brys**
  10/02/2025,10:00–13:00, HCT - Canolfan Dysgu Llanbadarn, Aberystwyth

Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle ar cwrs, cysylltwch â:

# FORTHCOMING TRAINING

## Virtual Training

- **Mate Crime**
  14/01/2025, 10:00–11:00
- **Canabis Workshop**
  16/01/2025, 13:30–16:30
- **Antisocial Behaviour Hate Crime**
  20/01/2025, 10:00–11:00
- **Safeguarding Adults Group C**
  28/01/2025 & 04/02/2025, 09:30–16:30
- **LGBTQ+ - How to Provide Appropriate Services and Support**
  04/02/2025, 09:30–13:00
- **Basic Substance Misuse Awareness**
  06/02/2025, 09:30–13:30
- **Personal Safety / Lone Working**
  13/02/2025, 10:00–11:00
- **Hate Crime**
  05/03/2025, 10:00–12:00
- **Raising Awareness of Lymphoedema and Cellulitis**
  06/03/2025, 10:00–11:00

## Face to Face Training

- **Heart Start / Emergency First Aid**
  10/02/2025, 10:00–13:00, HCT - Llanbadarn Learning Centre, Aberystwyth

For more information or to book onto a course, please contact:

**dysgu@ceredigion.gov.uk**
**01970 633949**
**ceri.ceredigion.gov.uk/learning/cy/**
**ceri.ceredigion.gov.uk/learning/**